

# GWIRFODDOLI

## DISGRIFIAD O RÔL TYWYSYDD GWIRFODDOL

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â rhaglen wirfoddoli Canolfan Mileniwm Cymru. Crëwyd y disgrifiad yma o'r rôl i roi gwybod i chi am beth rydyn ni'n chwilio ac a yw'r rôl yn addas i chi.

Ein gweledigaeth fel elusen yw ysbrydoli ein cenedl a chreu argraff ar y byd drwy greu profiadau sy'n newid bywydau ac yn ehangu gorwelion. Mae pob ceiniog a gaiff ei gwario yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn ein helpu ni i ddarparu ymgysylltiad cymunedol rhagorol a gwaith dysgu creadigol i gyfoethogi bywydau a dyfodol pobl.

Er mwyn i ni barhau i ddatblygu cyfleoedd, yn ogystal â chyflwyno a chynhyrchu sioeau ardderchog, mae angen cryn dipyn o gefnogaeth arnom ni.

## PAM GWIRFODDOLI YNG NGHANOLFAN MILENIWM CYMRU?

P'un a ydych chi am wneud ffrindiau, profi'r celfyddydau, ennill sgiliau newydd, bod yn rhan o gymuned a gwneud gwahaniaeth neu fwynhau, mae pobl yn gwirfoddoli gyda ni am amryw o resymau.

## OES GENNYCH CHI...?

- **Ddiddordeb mewn theatr a'r celfyddydau?**
- **Brwdfrydedd dros wasanaeth cwsmeriaid?**
- **Agwedd gwrtais a chyfeillgar?**
- **Awydd i gefnogi Canolfan Mileniwm Cymru?**

Os felly, byddem ni wrth ein bodd yn eich croesawu i'r tîm.

## Y RÔL

Gweithredu fel Tywysydd Lleoliad Gwirfoddol, ym mhob lleoliad yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Mae tywyswyr gwirfoddol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth croesawgar, effeithlon, gwybodus a chyfeillgar, gan weithio ochr yn ochr â'n Cynorthwywyr Profiad Cwsmeriaid i sicrhau bod ein holl ymwelwyr yn cael profiad bythgofiadwy.

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE




## DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

- **Gwirio tocynnau theatr**
- **Gwneud yn siŵr bod ardaloedd eistedd a llwybrau gadael mewn argyfwng yn glir o rwystrau**
- **Gwybod a dilyn yr holl bolisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch**
- **Goruchwylio'r gynulleidfa yn ystod perfformiad, gan weithredu'n briodol pan fo angen, e.e. gofyn i bobl stopio cymryd ffotograffau neu siarad**
- **Gweithredu fel swyddog gadael mewn argyfwng yn ôl y galw, gan gynorthwyo'r Rheolwr Gweithrediadau i sicrhau bod cwsmeriaid yn gadael yr adeilad mewn ffordd ddiogel ac amserol**
- **Cynorthwyo cwsmeriaid i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch yr adeilad, gan ateb ymholiadau a hyrwyddo lefel uchel o wasanaeth cwsmeriaid**
- **Cynorthwyo'r tîm gyda swyddogaethau eraill pan fo angen, fel tywys cwsmeriaid hwyr i'w seddi**
- **Mabwysiadu a chadw at egwyddorion craidd Canolfan Mileniwm Cymru**
- **Rhoi adborth i'r tîm rheoli er mwyn gwella'r cynllun**

## SHIFFTIAU GWIRFODDOLWYR

Rydyn ni'n gobeithio y gallwch chi wneud tair shifft y mis ar gyfartaledd, ond mae croeso i chi dreulio mwy o amser gyda ni os hoffech chi. Yn gyffredinol, nid yw shifftiau'n hirach na phum awr, ond os byddan nhw'n hirach byddwn ni bob amser yn rhoi gwybod i chi.

Fel arfer, dyma amseroedd dechrau shifftiau:

- **1.15pm ar gyfer perfformiad matinee**
- **6.15pm ar gyfer perfformiad hwyrol**

Gall amseroedd amrywio a gall amseru sioeau mewn lleoliadau eraill fod yn wahanol i'r brif theatr.

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE



## MANTEISION GWIRFODDOLI YNG NGHANOLFAN MILENIWM CYMRU

Fel gwirfoddolwr byddwch chi'n gallu hawlio costau teithio (mae cyfyngiadau yn gymwys) yn ogystal â lwfans bach am bryd os byddwch chi'n gweithio am dros bedair awr.

Byddwch chi hefyd yn cael y buddion canlynol:

- **Diweddariadau rheolaidd am bopeth sy'n digwydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru**
- **Cynigion ad hoc ar docynnau**
- **Y gallu i gofnodi oriau gwirfoddoli**
- **Geirda personol**
- **Hysbysiadau cynnar am swyddi gwag**
- **Digwyddiadau ymgysylltu unigryw i wirfoddolwyr, fel teithiau cefn llwyfan, sgyrsiau a nosweithiau cymdeithasol**

## SUT I YMGEISIO

Gallwch chi wneud cais ar-lein ar ein gwefan yganolfan.org.uk neu gallwch chi e-bostio **gwirfoddoli@wmc.org.uk**

## Y BROSES

1. Cyflwyno ffurflen gais
2. Sgwrs anffurfiol ag aelod o'r tîm
3. Os yn llwyddiannus, byddwch chi'n ymuno â'r tîm!
4. Sesiynau cynefino a hyfforddi i'ch croesawu chi i Ganolfan Mileniwm Cymru sy'n cwmpasu pynciau fel Iechyd a Diogelwch a sut i fod yn dywysydd
5. Tair shifft gyntaf yn cysgodi ffrind. Cewch eich paru â thywysydd gwirfoddol profiadol a fydd yn eich helpu chi i ddysgu'r rôl ac ymgartrefu yn y tîm